# Gwybodaeth am gyflog

22/02/13

**Cais am Wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 23 Ionawr, pan wnaethoch ofyn,

*Faint o staff Comisiwn y Cynulliad sy'n ennill mwy na £35,000?*
*Faint o Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad sy'n ennill mwy na £35,000?*

Mae'r wybodaeth y gwnaethoch gais amdani wedi'i gosod yn y tabl isod ac mae'n ymwneud â staff Cyfwerth ag Amser Llawn:

| | |
|---|---|
| **Staff Comisiwn y Cynulliad** | |
| Cyflog sylfaenol yn unig | 94 |
| Yn cynnwys lwfansau rheolaidd fel Lwfansau Cyfrifoldeb, Lwfansau Aflonyddwch Sifftiau ac ati. | 120 |
| **Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad:** | |
| Cyflog sylfaenol yn unig | 6 |
| Yn cynnwys lwfansau rheolaidd fel Lwfansau Cyfrifoldeb, Lwfansau Aflonyddwch Sifftiau ac ati. | Amherthnasol |

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan ar http://www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 89 8635
E-bost/Email:Buddug.Saer@wales.gov.uk
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth / Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**